# CYNGOR CYMUNED LLANWNDA

## COFNODION – CYFARFOD IONAWR 2018

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Nos Fercher, 17 IONAWR 2018 |
| **AMSER** | 7.00yh |
| **LLEOLIAD** | **Ysgol RHOSTRYFAN** |

| | |
|---|---|
| 1. | **Croeso**<br>Rhoddwyd croeso arbennig i bawb gan y Cadeirydd Nerys Evans. Yn bresennol roedd Cyng. Aeron M Jones, Tom Ellis, Jason Hunt, Gwilym Ll Williams, Michelle, Rhys Owen, Caryl E Lewis (Clerc).<br><br>Rhoddwyd croeso arbennig i Aelod Newydd Rhosgadfan, Peter Roberts |
| 2. | **Ymddiheuriadau**<br>Cafwyd ymddiheuriadau gan Elin Evans a Gwilym V Thomas.<br><br>Nid oedd Neal Williams yn bresennol. |
| 3. | **Datgan Buddiant** |
| 4. | **Cadarnhau cofnodion 15 Tachwedd 2017 a materion yn codi**<br>Angen addasu rhan 5c o'r cofnodion sydd yn cyfeirio at syniad AMJ o'r Cyngor Cymuned Llanwnda a Llandwrog yn prynu'r feddygfa trwy fenthyciad. Angen nodi mai syniad yn unig oedd hwn ac nad oedd trafodaeth ffurfiol arno.<br><br>Cynigodd AMJ fod y cofnodion yn gywir ac eiliwyd gan TE. |
| 5. | **Materion Misol:**<br>**a) Sedd Wag Rhostryfan – Cyfethol**<br>Cafwyd un cais am y sedd wag. Pleidleisiwyd yn unfrydol i Bryn Hughes gael y sedd wag a rhoddwyd gwahoddiad iddo i'r cyfarfod nesaf.<br><br>**b) Meddygfa Rhostryfan**<br>Nododd AMJ fod trefniadau ymgysylltu'r feddygfa wedi bod yn flêr a heb ddilyn canllawiau. Mae'r Feddygfa felly yn y broses o roi ail gais i mewn ar gyfer cau'r Feddygfa. Dim ymgysylltu pellach wedi bod gyda'r gymuned. Wedi bod yn agored wythnos yma, 2 dydd yr wythnos. Nodwyd hefyd fod sefyllfa diffyg bysiau rŵan wedi cael effaith pellach a dylai hyn gael ei ystyried. Mae bysiau'r ardal lawr o 11 bws i 5 ac mae hi'n amhosib i bobl Rhostryfan sydd heb gar deithio i'r Feddygfa yng Nghaernarfon. Roedd Aelodau'n teimlo'n gryf y dylai hyn gryfhau'r achos i gadw'r Feddygfa ar agor. Cytunwyd i'w gael fel mater agenda misol.<br><br>**c) Trydan Llanwnda**<br>Dim toriadau pellach wedi bod.<br><br>**d) Problemau Bysiau**<br>Nododd AMJ fod problemau mawr wedi bod ac mae bysiau'r ardal lawr o 11 bws i 5 sydd yn annerbyniol. Mae pobl yn cael trafferthion teithio i'w gwaith ac mae plant ysgol Syr Huw yn cyrraedd yn hwyr a ddim lle i eistedd ar y bysiau. Mae blerwch mawr o ochr Cyngor Gwynedd wedi bod ac mae AMJ yn cydweithio gyda nhw i geisio datrys y sefyllfa. Gofynnodd AMJ am arweiniad lleol ar beth yw'r prif broblemau a pwy sydd yn colli allan, bydd yn copïo NE i mewn ar y negeseuon i Gyngor Gwynedd a bydd yn gofyn am ymchwiliad i'r llanast.<br><br>**e) Park & Ride Llanwnda**<br>Nododd AMJ fod cynllun wedi ei ddatblygu gan Gyngor Gwynedd i greu "Park & Ride" i 110 o geir. Mae bwriad ehangu'r maes parcio presennol ac iddo fynd tu ôl i'r tai. Nid oes unrhyw ymgynghoriad wedi bod gyda'r trigolion a dim cysylltiad wedi bod gyda'r Cyngor Cymuned, Mae Cyngor Gwynedd yn dadlau fod ei angen ar gyfer staff Wylfa newydd ond tydi hwn heb gael caniatâd cynllunio eto. Nodwyd fod pryderon mawr yn lleol, mae reit yn ymyl Lon Las Eifion, plant a phobl yn cerdded yno yn rheolaidd. Ystlumod hefyd ar y safle, byddai golau |

artiffisial yn peryglu nhw. Mae pryderon mawr nad yw'r angen wedi ei brofi, bod risgiau iechyd a diogelwch ac y byddai effaith negyddol ar yr ardal. Clerc i yrru llythyr yn gwrthwynebu ar ran y Cyngor Cymuned. Angen rhoi awgrym hefyd os oes angen am fwy o feysydd parcio, pam ddim gwneud defnydd o rai sydd yn bodoli yn barod a gwneud rhai llai mewn gwahanol rannau o'r gymuned e.e. Bontnewydd, Caeathro.

**f) Deffibrillator Rhostryfan**
Clerc yn nodi fod ymgyrch i gael defibrillator ar gyfer cymuned Rhostryfan a bod cyfarfod yn cael ei gynnal wythnos nesaf o weld pa ddiddordeb a pwy sydd yn fodlon helpu. Nodwyd y byddai'r Cyngor Cymuned yn cefnogi'r ymgyrch ac y gallwn ystyried cais am nawdd tuag ato os rhoddir cais i mewn.

**g) Difrod i safleoedd bws Dinas a Llanwnda**
Nodwyd fod modd hawlio ar yr yswiriant ar gyfer costau gosod meinciau newydd ac y byddai angen talu £100 o excess. Byddai'r gwaith fel arall yn costio tua £1,500 gan y cwmni sydd yn gwneud y cysodfannau. Opsiwn arall byddai tynnu'r meinciau yn gyfan gwbl neu blygu nhw'n ôl a'i pheintio. Clerc i ddod ac opsiynau i'r cyfarfod nesa i drafod.

**h) Trefniadau grantiau – cyfarfod Chwefror**
Nododd y Clerc y byddwn yn trafod a chytuno ar geisiadau nawdd yn cyfarfod Chwefror. Gan fod gwaith mynd drwy'r ceisiadau ac mae'n cymryd amser, rhoddwyd cais i'w ystyried sef fod yr Is-grŵp Cyllid yn cyfarfod i drafod ac asesu'r ceisiadau, yna cynnig argymhellion i'r Cyngor Cymuned. Cytunwyd gyda'r cynnig hwn, bydd yr Is-grŵp yn Cyfarfod 6pm 21 Chwefror, cyn cyfarfod y Cyngor Cymuned am 7pm. Cynigwyd yr aelodau canlynol - EE, MW, JH, AMJ.

**i) Tendro – gwaith y fynwent, llwybrau a chysodfannau**
Cytunwyd i gadw'r pecyn tendro fel y mae ond bydd angen nodi fod disgwyl torri gwair y fynwent bob 3 wythnos rhwng canol Mawrth a diwedd Medi, ond gan ystyried y tywydd. Bydd angen nodi fod disgwyl iddo gael ei wneud cyn bob prif ŵyl, sef Sul y Blodau, Sul y Mamau, Sul y Tadau, Nadolig.

**j) Arolwg o gerrig beddi'r fynwent**
Pawb yn fodlon i'r arolwg o'r cerrig beddi ddigwydd cyn gynted â phosib ac i hysbyseb fynd i Lleu. Clerc i drefnu.

**k) GLLW – Oes ymateb wedi ei dderbyn gan y chwarel am gerrig ar gyfer codi wal y fynwent?**
Dim ymateb wedi derbyn hyd yma ond bydd y Clerc yn atgoffa'r Chwarel.

**l) EE - Eisiau diolch i'r gang cymunedol am glirio'r palmentydd o amgylch ardal Llanwnda.**
Nododd y Clerc ei bod wedi gyrru neges o ddiolch a bod hyn wedi cael ei werthfawrogi.

**m) MW - Ael y Bryn (pasio dreflan fyny ag ar y troad) - wedi codi waliau a rhoi llechan a charreg ar y top, llechi yn sticio allan ac yn beryglus ar y gornel pe bai rhywun ar feic er enghraifft.**
Clerc wedi adrodd ar hyn i Uned Priffyrdd Cyngor Gwynedd ac maent wedi cysylltu gyda'r perchennog.

**n) MW - Cwynion am ddefaid ar y mynydd ag yn y pentref. Mae angen llythyru'r Porwyr i gwyno am hyn a holi beth yw'r drefn i fod, mae honiad fod rhai defaid ar y mynydd heb hawl bod yno.**

Nododd y Clerc ei bod wedi derbyn ymateb gan Gymdeithas y Porwyr:

| | |
|---|---|
| | *"Mae cwta 250 unigolyn efo hawliau cofrestredig i droi stoc ar Gomin Uwch Gwyrfai; llai na 50 ohonynt sydd aelodau Gymdeithas Pori uwch Gwyrfai. (Cofrestrir yr hawliau gyda Chyngor Gwynedd.) Mae'n bosib bod ambell un sydd heb hawliau yn troi defaid i'r Comin hefyd.*<br><br>*I bob pwrpas, adeiladwyd pentrefi Rhosgadfan, Y Fron a Charmel ar y Comin, ac yna mae rhannau o'r pentrefi hyn yn cael eu hystyried fel rhan o'r Comin. Mae mapiau sydd yn dangos terfynau'r Comin i'w gweld yn swyddfa cofrestru tir comin dan ofal Cyngor Gwynedd.*<br><br>*Os caf grynhoi: yn gyntaf, y sawl sy'n gyfrifol am unrhyw stoc yw'r perchennog; ac yn ail, mae'r Gymdeithas yn gorff preifat."*<br><br>Cafwyd trafodaeth a nodwyd os ydy'r problemau yn parhau a MW dal i dderbyn cwynion gan drigolion y bydd angen casglu tystiolaeth o'r honiadau a'i yrru at y Porwyr. |
| 6. | **Derbyn Adroddiadau**<br><br>NE – Wedi mynychu Pwyllgor Unllais Cymru cyn y Nadolig. Roedd son yn y cyfarfod am dalu cynghorwyr cymuned, mae angen i'r Clerc holi mwy erbyn y cyfarfod nesaf, mae hyn yn cymhlethu pethau. Roedd NE yn teimlo ei fod yn dda bod yn aelod o Unllais gan fod cefnogaeth yno pe bai problem ac angen cyngor.<br><br>Clerc wedi derbyn llythyr - Gwaith ar lwybr llechi - reit wrth Tryfan junction, lot o dyllau yna, dwr yn dod lawr, French drain yn y top. Wyn i sbïo beth ydy'r broblem. Wedi cario'r cerrig. Clerc i gael pris |
| 7. | **Is-bwyllgorau**<br>Dim i'w nodi |
| 8. | **Materion Ariannol**<br>a) **Adroddiad Ariannol**<br>**<u>Sefyllfa Ariannol y Cyngor ar 15 Ionawr 2018</u>**<br><br>**<u>1. Cyfrif Cadw</u>**<br>Balans a ddygwyd ymlaen: 24,810.71<br>+ Llog 2.50<br>**Balans ar derfyn busnes 15 Ion 2018 24,813.21**<br><br>**<u>2. Cyfrif Siec</u>**<br>Balans a ddygwyd ymlaen: **4,538.72**<br>- Cyllid y Wlad Tach 104.80<br>- Cyllid y Wlad Rhag 104.80<br>- 101044 Caryl E Lewis Cyflog Tach 461.05<br>- 101045 Caryl E Lewis Cyflog Rhag 461.05<br>- 101046 North Wales Crop Spraying 276.00<br>**Balans ar derfyn busnes 15 Ion 2018: 3,131.02**<br><br>**<u>Taliadau i'w cytuno arnynt yng nghyfarfod 17 Ionawr 2018:</u>**<br><br>Cyflog Clerc Ionawr 461.05<br>Antivirus & Ink Printer (Ad-daliad C.Lewis) 138.45<br>Cyllid y Wlad Ionawr 104.80<br>Antur Nantlle 144.00<br>John D Roberts – Archwiliwr Mewnol 75.00<br>Sion Owen 880.00<br>**Cyfanswm 1,803.33** |

| | |
|---|---|
| | b) **Trefniadau ddiwedd flwyddyn ariannol**<br>Nodwyd fod cyfrifon 2017/18 yn parhau i gael eu harchwilio gan Gwmni BDO. Nodwyd hefyd fod llythyr wedi ei dderbyn gan John Roberts, Archwiliwr Mewnol yn nodi na fydd yn parhau gyda'r rôl. Clerc wedi cael pris o £150 gan Gyngor Gwynedd ar gyfer y gwaith hwn. Pleidleiswyd yn unfrydol ar gyfer derbyn y cynnig hwn, bydd y Clerc yn gwneud y trefniadau.<br><br>**c) Cyllideb a Praesept 2018/19**<br>Diolchwyd i'r Clerc am baratoi cyllideb ar gyfer 2018/19. Roedd wedi amcangyfrif beth fyddai'r gwariant ac incwm am y flwyddyn. Yn ôl y rhagolygon, os ydym yn cadw'r lefel fel y mae ar £23,300 na fyddai llawer o arian wrth gefn pe bai unrhyw waith ychwanegol yn codi a gan gofio hefyd ein bod yn parhau i geisio cynilo ar gyfer y gwaith o godi wal o amgylch tir y fynwent. Derbyniwyd yr argymhelliad i godi'r lefel i £25,000. Mae hyn er mwyn parhau gyda rhaglen waith blynyddol y Cyngor, sicrhau fod yna ddigon o arian wrth gefn a hefyd cynilo ychydig mwy tuag at gostau'r wal.<br><br>**ch) Yswiriant 2018**<br>Nodwyd fod y polisi angen ei adnewyddu gyda Zurich, y gost am flwyddyn byddai £1,758 neu mae cynnig i ymrwymo am 5 mlynedd am gost o £1,595 y flwyddyn am 5 mlynedd. Cytunwyd i'r Clerc holi os gallai gael y pris lawr rhagor wedyn cymryd y polisi 5 mlynedd os yw'r gost yn dod lawr. |
| 9. | **Materion Cynllunio**<br>Cais C17/1205/24/LL – Wern Cottage, Rhostryfan LL54 7ND.<br>Ail gyflwyniad cais ar gyfer dymchwel ystafell haul presennol a chodi estyniad unllawr ar ochr yr eiddo.<br><br>**Dim Sylw na gwrthwynebiad** |
| 10. | **Gohebiaeth a chylchgronau**<br>**Llythyr Oaktee Environmental Ltd -** Nodwyd fod llythyr wedi ei dderbyn gan John Williams gyda manylion cais cynllunio safle chwarel Moel Tryfan ar gyfer y gwaith o alluogi tynnu deunydd o'r tomen gwastraff llechi. Mae modd gweld y cynlluniau yn llyfrgell Penygroes. |
| 11. | **Materion Cyfarfod Nesaf**<br>RO - Cyflwr y Lon o Saron i'r ysgol ac wrth giât mynedfa dwr Cymru, byth di cael ei wneud.<br>RO - Gwteri - ger Rhosgawen, angen sbïo mewn iddo, lleill yn tynnu dŵr a dod allan o honno. Tyllau yn y ffordd, mwy o ddŵr yn mynd lawr y lon a gwneud y tyllau yn waeth.<br>GLLW - Tŷ dros ffordd i'r Goeden eirin, Dolydd. Caead bocs GPO i lawr yn isel o'r ffrâm.<br>MW - Gwaredu gwastraff anghyfreithlon yn Rhosgadfan (Ymyl y cattle grid ar y ffordd am Waunfawr), mae pren a rwbel wedi ei adael yno. Wedyn ar yr un ffordd, heibio Bryn Bach, mae Dŵr Cymru wedi bod allan i geisio datrys problem ond erbyn hyn mae dŵr yn mynd ar draws y lon ac ar y gornel, peryg os yw'n rhewi. Mae twll difrifol yn y lon cyn Tyddyn Berth. Yn gyffredinol mae'r lon yn ol i'r pentref am Brŷn Bach yn ddifrifol gyda thyllau.<br>PR - Mae sbwriel ailgylchu yn chwythu i gerddi, enwedig o ddrwg ym Mro Cadfan. Mae bocsys yn cael eu taflu yn ol ac yn cael eu difrodi.<br>PR - Cwn a chathod yn dod i gerddi Bro Cadfan i faeddu.<br><br>**Dyddiad: 21 Chwefror 2018**<br>**Lleoliad: Ysgol RHOSGADFAN** |